



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2001 Rhif 2071 (Cy.143)**

**2001 No. 2071 (W.143)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu  
Tai (Ffurflenni a Manylion a  
Ragnodir) (Diwygio) (Cymru)  
2001**

**The Housing Renewal Grants  
(Prescribed Forms and Particulars)  
(Amendment) (Wales) Regulations  
2001**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau..)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffurflenni (dwyieithog) sydd i'w defnyddio gan berchen-feddianwyr a thenantiaid wrth wneud cais am grantiau adnewyddu tai o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

These Regulations amend the (bilingual) forms to be used by owner-occupiers and tenants when applying for housing renewal grants under Chapter I of Part I of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 in Wales.

Mae'r ffurflen Gymraeg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998 (OS 1998/1113 fel y'i diwygiwyd).

The Welsh language form amended is set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars)(Welsh Form and Particulars) Regulations 1998 (SI 1998/1113 as amended).

Mae'r ffurflen Saesneg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996 (OS 1996/2891 fel y'i diwygiwyd).

The English language form amended is set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) Regulations 1996 (SI 1996/2891 as amended).

Mae'r diwygiadau yn dilyn y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2073) (Cy.145) i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (O.S. 1996/2890).

The amendments are consequential on those being made by the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/2073)(W.145) to the Housing Renewal Grants Regulations 1996 (S.I. 1996/2890).

**2001 Rhif 2071 (Cy.143)****2001 No. 2071 (W.143)****TAI, CYMRU****HOUSING, WALES****Rheoliadau Grantiau Adnewyddu  
Tai (Ffurflenni a Manylion a  
Ragnodir) (Diwygio) (Cymru)  
2001****The Housing Renewal Grants  
(Prescribed Forms and Particulars)  
(Amendment) (Wales) Regulations  
2001***Wedi'u gwneud**24 Mai 2001**Made**24th May 2001**Yn dod i rym**1 Gorffennaf 2001**Coming into force**1st July 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(2) a (4), 101(a) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(b) fel y'u hestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(c), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales in exercise of the powers given to it by sections 2(2) and (4), 101(a) and 146(1) and (2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996(b) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(c), makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso****Name, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2001.

1.-(1) These Regulations are called the Housing Renewal Grants (Prescribed Forms and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and they come into force on 1st July 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig ac nid ydynt yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau grant sy'n cael eu gwneud cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(2) These Regulations apply to Wales only and do not have effect in relation to applications for grant made before the date on which these Regulations come into force.

**Diwygiadau****Amendments**

2.-(1) Mae'r ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998(ch) yn cael ei diwygio yn unol â thestun Cymraeg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

2.-(1) The form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars)(Welsh Form and Particulars) Regulations 1998(d) is amended in accordance with the Welsh language text of the Schedule to these Regulations.

(a) Gweler y diffiniad o "prescribed" yn adran 101.

(a) See the definition of "prescribed" in section 101.

(b) 1996 p.53; cafodd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(b) 1996 c.53; the powers were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1993 p.38.

(c) 1993 c.38

(ch) O.S. 1998/1113, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/2316, 1999/3470 (Cy. 56) a 2000/1735 (Cy. 119).

(d) SI 1998/1113, amended by SI 1999/2316, 1999/3470 (W.56) and 2000/1735(W.119)

(2) Mae'r ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996(a) yn cael ei diwygio i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru yn unol â thestun Saesneg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) The form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) Regulations 1996(a) in so far as it applies to Wales is amended in accordance with the English language text of the Schedule to these Regulations.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b).

24 Mai 2001

24th May 2001

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, 1997/809, 1999/1607, 1999/3470 (Cy.56) a 2000/1735 (Cy. 119).

(b) 1998 p. 38.

---

(a) S.I. 1996/2891, amended by S.I. 1996/3119, 1997/978, 1998/809, 1999/1607, 1999/3470 (W.56) and 2000/1735 (W.119).

(b) 1998 c.38

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

**DIWYGIADAU I'R FFURFLEN O DAN Y TEITL  
"CEISIADAU PERCHEN-FEDDIANNYDD A  
THENANT AM GRANTIAU ADNEWYDDU  
TAI"**

1. Yng nghwestiwn 3.31, yn y lle priodol, mewnosodwch -

"Taliad o gronfeydd mynediad (myfyrwyr) £

£

**Nodyn 86D**

*(Rhowch fanylion yr hyn y mae'r taliadau wedi'u bwriadu ar ei gyfer, e.e. gwres, prydau)".*

2. Yng nghwestiwn 3.34, yn lle "**a 90B**", rhowch "**90B a 90C**".

3. Ar ôl cwestiwn 3.34, mewnosodwch -

**"3.34A** Rhowch fanylion unrhyw daliad a wnaed i chi neu i'ch partner ar 1 Chwefror 2001 neu ar unrhyw adeg wedyn yn ymwneud â charchariad neu gaethiwed gan y Japaneaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. **Nodyn 90D**"

4. Yng nghwestiwn 3.38, mewnosodwch -

	Oes	Nac oeso
"Mae'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparwydd gofal plant a gymeradwywyd gan gorff a achredwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;"	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5. Yn nodyn 59, ar ôl y geiriau "at ddibenion budd-dâl plant", mewnosodwch ", neu sydd yng ngofal awdurdod lleol ac sydd wedi'i leoli gyda chi gan yr awdurdod".

6. Yn nodyn 85, ar ôl "(darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr)", mewnosodwch -

";

- grant ar gyfer prydau ysgol i blant dibynnol, neu ar gyfer prydau i blant dibynnol 3 neu 4 oed, a dalwyd yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysg ac Addysg Uwch 1998"(a).

7. Ar ôl nodyn 86C, mewnosodwch -

(a) 1998 p.30.

## SCHEDULE

Regulation 2

**AMENDMENTS TO THE FORM ENTITLED  
"OWNER-OCCUPIER'S AND TENANT'S  
APPLICATIONS FOR HOUSING RENEWAL  
GRANTS"**

1. In question 3.31, insert in the appropriate place -

"Payment from access funds (students) £

£

**Note 86D**

*(Please give details of what the payments are intended to cover; e.g. heating, meals)".*

2. In question 3.34, for "**and 90B**", substitute "**90B and 90C**".

3. After question 3.34, insert -

**"3.34A** Please give details of any payment made to you or your partner on or at any time after 1 February 2001 relating to imprisonment or internment by the Japanese during the Second World War. **Note 90D**"

4. In question 3.38, insert -

	Yes	No
"The care is provided by a child-care provider approved by an organisation accredited by the National Assembly for Wales;"	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5. In note 59, after the words "child benefit purposes", insert ", or who is in the care of a local authority and has been placed with you by the authority".

6. In note 85, after "(provision of financial assistance to students)", insert -

";

- a grant for school meals for dependent children, or for meals for dependent children aged 3 or 4, paid by virtue of regulations made under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998."(a).

7. After note 86C, insert -

(a) 1998 c.30

"**86D**. Rhaid i chi gynnwys unrhyw daliad o gronfeydd mynediad a fwriedir i'ch galluogi chi fel myfyriwr i dalu costau byw cyffredin - cost bwyd, tanwydd yr aelwyd, rhent, dillad, ac esgidiau - taliadau dwr neu'r Dreth Gyngor. Anwybyddir taliadau cronfeydd mynediad at y dibenion hyn hyd at £20 yr wythnos, ond fe ddylent gael eu cynnwys beth bynnag. Nid oes angen i chi gynnwys unrhyw daliadau o gronfeydd mynediad a roddwyd at ddibenion eraill."

8. Ar ôl nodyn 90B, mewnosodwch -

"**90C**. Peidiwch â chynnwys -

- unrhyw gyfandaliad lwfans cynhaliaeth sy'n daladwy mewn perthynas â chymryd rhan mewn rhaglen parth cyflogi;

- unrhyw daliad mewn cysylltiad â chynllun i leihau tan-feddiannaeth, a wnaed o dan reoliad 11 o Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau i Leihau Tan-feddiannaeth) 2000(a).

**90D**. Os oes taliad ex gratia o £10,000 wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Chwefror 2001 neu wedyn oherwydd bod (a) chi, (b) eich partner, (c) priod i chi sydd wedi marw, neu (ch) priod i'ch partner sydd wedi marw, wedi'u carcharu neu wedi'u caethiwo gan y Japaneaid yn yr Ail Ryfel Byd, caiff y swm hwnnw ei anwybyddu fel cyfalaf."**(b)**.

"**86D**. You must include any payment from access funds intended to enable you as a student to meet ordinary living expenses - the cost of food, household fuel, rent, clothing, and footwear - water charges or the Council Tax. Access fund payments for these purposes are disregarded to the extent of £20 per week, but should be included in any case. You need not include any access fund payments that were for other purposes."

8. After note 90B, insert -

"**90C**. Please do not include -

- any lump sum payment of subsistence allowance payable in respect of participation in an employment zone programme;

- any payment in connection with a scheme to reduce under-occupation, made under regulation 11 of the Social Security (Payments to Reduce Under-occupation) Regulations 2000.(a)

**90D**. Where an ex gratia payment of £10,000 has been made by the Secretary of State on or after 1 February 2001 in consequence of the imprisonment or internment by the Japanese in the Second World War of (a) you, (b) your partner, (c) a deceased spouse of yours, or (d) a deceased spouse of your partner, that sum will be disregarded as capital."**(b)**.

---

(a) Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau i Leihau Tan-feddiannaeth) 2000, O.S. 2000/637.

(b) Rheoliadau Diwygio Nawdd Cymdeithasol (Anwybyddu Cyfalaf) 2001, O.S. 2001/22.

---

(a) Social Security (Payments to Reduce Under-occupation) Regulations 2000, S.I. 2000/637.

(b) The Social Security Amendment (Capital Disregards) Regulations 2001, S.I. 2001/22.





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif 2071 (Cy.143)**

**TAI, CYMRU**

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu  
Tai (Ffurflenni a Manylion a  
Ragnodir) (Diwygio) (Cymru)  
2001

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2001 No. 2071 (W.143)**

**HOUSING, WALES**

The Housing Renewal Grants  
(Prescribed Forms and Particulars)  
(Amendment) (Wales) Regulations  
2001

©© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£2.00**

W/332/07/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090251-3



9 780110 902517